



## **Band eang cyflym iawn yn dod i gymunedau yn sir y fflint**

Mae band eang cyflym iawn ar gael nawr **yng Ngorllewin yr Wyddgrug, Pontybodkin a Sealand** diolch i raglen Cyflymu Cymru.

Mae'r cartrefi a'r busnesau cyntaf yn yr ardaloedd hyn yn gallu defnyddio band eang ffibr cyflym o hyn ymlaen. Mae band eang cyflym iawn yn galluogi busnesau i weithio'n gyflymach ac yn fwy effeithlon. Ymhlith y manteision y mae'r gallu i lanlwytho a lawrlwytho dogfennau yn gyflymach, lleihau'r angen i deithio, helpu i greu swyddi ac ehangu busnesau.

Yn y cartref, mae cael band eang cyflym iawn yn golygu mwy na chael rhyngwrwyd sy'n gweithio'n gyflymach neu'r gallu i wneud un peth yn gyflymach. Mae'n golygu y gall pawb sydd yn y tŷ wneud yr hyn sydd ganddyn nhw i'w wneud ar-lein, i gyd ar yr un pryd, boed hynny'n ffrydio ffilmiau, lawrlwytho cerddoriaeth, astudio neu gysylltu ag anwyliaid.

Dywedodd y Dirprwy Weinidog Sgiliau a Thechnoleg, Ken Skates: "Mae gan y rhaglen Cyflymu Cymru y gallu i drawsnewid y ffordd rydyn ni'n gwneud busnes, yn cadw mewn cysylltiad â'n gilydd, yn cael ein hadloniant ac yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus.

"Yng Nghymru, mae'n debyg mai'r rhaglen Cyflymu Cymru yw'r rhaglen fwyaf uchelgeisiol yn y Deyrnas Unedig. Ein nod yw cyrraedd 96% o eiddo erbyn diwedd gwanwyn 2016 gan sicrhau bod ffibr ar gael i ragor o bobl yn gyflymach nag mewn ardaloedd eraill yn y Deyrnas Unedig. Trigolion a busnesau **yng Ngorllewin yr Wyddgrug, Pontybodkin a Sealand** yw'r diweddaraf i elwa ar hyn.

"Golyga hyn y bydd Cymru nid yn unig yn un o wledydd mwyaf cysylltiedig y byd erbyn 2016 – mae hefyd yn mynd ymhellach, yn gyflymach ac ynghynt er mwyn gwireddu'r nod hwn."

Cyflymu Cymru yw'r bartneriaeth fwyaf o'i bath yn y Deyrnas Unedig sy'n gweithio i wireddu nod Llywodraeth Cymru, drwy weithio gyda rhaglenni masnachol eraill, sef sicrhau bod band eang ffibr cyflym ar gael i 96% o eiddo yng Nghymru erbyn diwedd y gwanwyn 2016.

Dylai cartrefi a busnesau yn yr ardal sydd am elwa ar fanteision band eang ffibr cyflym gysylltu â darparwr gwasanaethau rhyngwrwyd (ISP) o'u dewis er mwyn archebu.

Ceir gwybodaeth am y rhaglen ar wefan Cyflymu Cymru ([www.superfast-cymru.com](http://www.superfast-cymru.com))

ynghyd â map yn dangos manylion y cynlluniau ar gyfer ehangu'r ddarpariaeth ymhen rhyw 12 mis.

